Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

15 Mehefin 2018

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru). Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael ar dudalen y Bil ar y wefan.

**Cylch gorchwyl**

Wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, defnyddia'r Pwyllgor y cylch gorchwyl a ganlyn:

Ystyried:

- egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir. Wrth ddod i farn ar y mater hwn, efallai y byddwch am ystyried Rhannau unigol o'r Bil:
    - Rhan 2 – Gwahardd taliadau penodol etc
    - Rhan 3 – Trin blaendaliadau cadw
    - Rhan 4 – Gorfodaeth

– Rhan 5 – Adennill swm gan ddeiliad y contract
– Rhan 6 – Rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd asiantiaid gosod eiddo
– Rhan 7 – Darpariaethau terfynol
– Atodlen 1 – Taliadau a ganiateir
– Atodlen 2 – Ymdrin â blaendal cadw

– unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith, ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hyn;

– priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 6 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);

– a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bi; a

– goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'i waith o ystyried y Bil. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai ymatebion gyrraedd erbyn **dydd Gwener 7 Medi 2018**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

**Canllawiau**

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau.

**Polisi dwyieithrwydd**

Mae’r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/preifatrwydd/Pages/help-inquiry-privacy.aspx. Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**Manylion cyswllt**

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:


Clerc y Pwyllgor


Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
Rhif ffôn: 0300 200 6565


Yn gywir,



John Griffiths AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**